Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 08.01.2021

## Prif Weinidog Cymru: "Arhoswch gartref i achub bywydau"

Dywedodd y Prif Weinidog Mark Drakeford heddiw bod rhaid i bawb aros gartref i achub bywydau wrth iddo gadarnhau y bydd cyfyngiadau lefel rhybudd pedwar y coronafeirws yn parhau yng Nghymru. Yn dilyn adolygiad ffurfiol o gyfyngiadau symud lefel rhybudd pedwar, a gyflwynwyd am hanner nos ar 19 Rhagfyr 2020, bydd yr holl fesurau'n parhau yn eu lle. Mae hyn yn golygu y bydd busnesau manwerthu nad ydynt yn hanfodol, lleoliadau lletygarwch, adeiladau trwyddedig a chyfleusterau hamdden yn parhau ar gau. Maent yn egluro bod rhaid i bob ystafell arddangos gau. Byddant yn parhau i allu gweithredu trefniadau clicio a chasglu. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu pa fesurau ychwanegol y mae angen i archfarchnadoedd a manwerthwyr mawr eu rhoi ar waith i ddiogelu pobl yn y siopau. Rydym hefyd yn adolygu beth arall y mae angen i gyflogwyr ei wneud i amddiffyn pobl yn y gweithle a chefnogi pobl i weithio gartref. Ar gyfer y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/prif-weinidog-cymru-arhoswch-gartref-i-achub-bywydau

## Diweddariad: Cronfa Cymorth Penodol i'r Sector yr ERF

Dylai'r gronfa fod ar agor ar gyfer ceisiadau erbyn 12:00pm ar 13 Ionawr 2021, a bydd yn aros ar agor am bythefnos neu hyd nes y bydd yr arian wedi'i ymrwymo'n llawn. Defnyddiwch y gwiriwr cymhwysedd i adolygu'r meini prawf yma:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/sectorspecificgrant/cy

I ddarllen canllawiau'r gronfa cyn iddo agor, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/cymorth-penodol-ir-sector-cronfa-cadernid-economaidd-erf

## Awdurdodau yn dod ynghyd unwaith eto i gau meysydd parcio Eryri

Wrth i'r pandemig gyrraedd y nifer uchaf eto o heintiau ac amrywiaeth o'r feirws yn lledaenu mor gyflym mae Awdurdodau eisiau pwysleisio osgoi teithio yn ddiangen. Unwaith eto yn dilyn nifer cynyddol o bobl yn anwybyddu canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru mewn cyfnod o gyfyngiadau symud (lefel rhybudd 4), mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi penderfynu cau ei holl feysydd parcio. Mae datganiad ar y cyd wedi ei ryddhau gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Gwynedd a Heddlu Gogledd Cymru am hyn, ewch i

http://bit.ly/DatganiadAPCE08Ion2021

## Ymgynghori ar godi premiwm treth cyngor ar ail gartrefi a thai gwag hir-dymor yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig i gynyddu'r Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Mae'r datganiad llawn yma:

http://bit.ly/DatganiadGwynedd23Rhag2020

Mae'r cyfnod ymgynghori ar agor tan 1 Chwefror 2021. I gymryd rhan, ewch i:

http://bit.ly/HoliadurPremiwmTreth

# Gwelliannau gwerth £850,000 yn cychwyn yn Neuadd Dwyfor

Mae gwaith uwchraddio sylweddol gwerth £850,000 wedi cychwyn yn Neuadd Dwyfor ym Mhwllheli a fydd yn gwella'r cyfleusterau yn y theatr a'r llyfrgell. I weld mwy am y newyddion yma, ewch i:

http://bit.ly/DatganiadGwynedd08Ion2021

# Cymorth Masnach Ryngwladol: Beth mae cytundeb Masnach y DU-UE yn ei olygu i Fusnes?

Mae Siambr Fasnach Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd Cymru yn cynnig Cymorth Masnach Ryngwladol ac yn cynnal cyfres o sesiynau briffio a sesiynau byr ar ôl Brexit sy'n agored i bobl nad ydynt yn aelodau ac aelodau fel ei gilydd, i helpu busnesau i baratoi ar gyfer y rheolau masnach newydd, o weithdrefnau'r tollau i ymarferoldeb prynu o farchnad yr UE a'i gwerthu. Dyma fanylion dyddiadau ac amseroedd, yn ogystal â dolenni cofrestru ac archebu, ar gyfer y sesiynau rhad ac am ddim yma:

- 11 Ionawr 2021 9:30am – 11:00am: 'Nuts and Bolts' – Your business, Your people
  http://bit.ly/2LycxfG

- 9 Chwefror 2021 9:00am – 11:00am: Protecting Your Assets – Intellectual Property and Conformity
  http://bit.ly/3nqJYxO

- 11 Mawrth 2021 9:00am – 11:00am: From A to B – The successful movement of goods
  http://bit.ly/3i2CG2o

## HWB Menter M-Sparc: Dosbarthiadau Meistr Trefi SMART 14 Ionawr 2021

Mae'r ail yn y gyfres o 5 Dosbarth Meistr yn ffocysu ar sut gall data helpu canol trefi a strydoedd mawr addasu yn cael ei gynnal ar 14 Ionawr 2021 o 2:00pm – 3:00pm. Yn dilyn o'r digwyddiad rhagarweiniol ar Hydref 2020, 'Adfywio o Covid19: Trefi SMART', bydd bob Dosbarth Meistr yn ymdrin mewn mwy o fanylder a phwnc penodol yn gysylltiedig â Threfi SMART. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/3pTpPCi

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru